

Pwyllgor Adfywio

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Mawrth, 2019

PRESENNOL:	Mr Bob Parry OBE FRAgS (Cadeirydd) Mr J Arwel Roberts (Is-gadeirydd) Y Mri John Griffith, Richard Griffiths, Carwyn Jones, R Meirion Jones a Eric Wyn Jones.
WRTH LAW:	Trysorydd Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn (cyfeirir atynt yma yn ôl teitlau eu swyddi gyda CSYM) Rheolwr Grantiau (JW), Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Y Mri Bryan Owen, Alun Roberts.
HEFYDYN BRESENNOL:	Mr T LI Hughes MBE – Cadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn Mr Richard O Jones – Is-gadeirydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyniwyd y datganiadau o ddiddordeb isod:-

Gwnaeth Mr Richard Griffiths ddatganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/20 – Caru Amlwch ac ni chymerodd ran yn y bleidlais ar yr eitem.

Gwnaeth Mr Richard O Jones ddatganiad o ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/20 – Caru Amlwch ac ni chymerodd ran yn y bleidlais ar yr eitem.

Gwnaeth Mr J Arwel Roberts ddatganiad o ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 4 – Ceisiadau am Grantiau Mawr 2019/20 – Meithrinfa Morlo.

2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, 2018.

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD :-

“Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar sail y tebygolrwydd y gall gwybodaeth gael ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

4 CEISIADAU AM GRANTIAU MAWR 2019/20

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Trysorydd ar yr uchod.

Dyweddodd y Trysorydd y derbyniwyd 29 o geisiadau'n wreiddiol ac y cafodd y rheiny ystyriaeth gychwynnol gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 13 Tachwedd, 2019. Penderfynodd y Pwyllgor roi 14 o geisiadau am grantiau ar restr fer ar gyfer asesiad manylach ac er mwyn derbyn gwybodaeth bellach am y ceisiadau hyn yn ôl yr angen. Nodwyd bod y Pwyllgor Buddsoddiadau a Chontractau yn ei gyfarfod ar 6 Tachwedd, 2018 wedi penderfynu argymhell i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn fod £350k yn cael ei ryddhau tuag ag ariannu grantiau mawr yn 2019. Yn ei gyfarfod ar 23 Ionawr, 2019, penderfynodd yr Ymddiriedolaeth Elusennol lawn gymeradwyo'r argymhelliad.

Cafwyd trafodaeth fanwl ar y 14 cais a oedd ar y rhestr fer a **PHENDERFYNWYD argymhell fel a ganlyn i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn yn ei gyfarfod ar 16 Ebrill, 2019:-**

- **Bod 12 o'r ceisiadau am grantiau a oedd ar y rhestr fer yn cael eu cefnogi gydag 11 ohonynt yn derbyn y swm y gofynnwyd amdano ac un yn derbyn swm llai na'r un y gofynnwyd amdano;**
- **Nad oedd 1 o'r 14 cais ar y rhestr fer wedi bod yn llwyddiannus;**
- **Anfon 1 o'r 14 cais ar y rhestr fer ymlaen i'r Ymddiriedolaeth lawn i'w ystyried ar gyfer ei ariannu y tu allan i'r broses flynyddol ar gyfer dyfarnu grantiau mawr;**
- **Bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Ymddiriedolaeth Elusennol lawn gyda'r symiau a argymhellir fel y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor Adfywio.**

**Mr Bob Parry OBE FRAGS
Cadeirydd**